GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Ym 1988, caewyd yr unig loches dydd i bobl ddigartref yng Nghaerdydd. Penderfynodd unigolion o'r gymuned leol bod rhaid iddyn nhw ddod at ei gilydd a gwneud rhywbeth i helpu pobl ddigartref sy'n agored i niwed a chynnig rhywfaint o loches iddyn nhw a saib o galedi byw ar y strydoedd. Felly fe ffurfiwyd grŵp ac yn sgil yr ymdrech hon ffurfiwyd Gweithredu Caerdydd dros y Sengl Digartref (C.A.S.H.). Yn fuan iawn roedden nhw'n darparu Canolfan Ddydd mewn llety dros dro yn agos i ganol y ddinas. Roedd y Ganolfan yn boblogaidd ymhen dim, gydag enw da am y lloches, y gobaith a'r cymorth datblygu roedd yn eu cynnig i bobl ddigartref mewn argyfyngau. Roedd cymaint o alw fel y bu'n rhaid ehangu'r gwasanaethau i gynnwys unedau gwelyau brys a thai â chymorth. Roedd y datblygiadau hyn yn cynnig llawer mwy o obaith, cefnogaeth a chyfleoedd i unigolion digartref oedd yn byw ar strydoedd Caerdydd, i wireddu eu potensial a datblygu ffordd o fyw mwy annibynnol a boddhaus.

Sefydlwyd C.A.S.H. gan y gymuned yn bennaf er mwyn diwallu anghenion y bobl mwyaf anghenus mewn cymdeithas, sy'n aml nid yn unig yn ddigartref ond mewn sefyllfa anobeithiol, truenus ac unig. Y syniad hynny o aelodau'r gymuned yn trefnu a darparu lloches, noddfa a chefnogaeth mewn amgylchedd cyfeillgar ac ethos o ddatblygu gyda chymorth yw prif ganolbwynt C.A.S.H. o hyd. Y syniad hwn yw'r egwyddor sydd wrth wraidd ein holl waith ac mae'n un yr ydym yn ei arddel ym mhob un o'n gwasanaethau.

Howard Gough
Cadeirydd Gweithredu Caerdydd dros y Sengl Digartref

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

GWASANAETHAU CYFREDOL

Y GANOLFAN DDYDD

A ninnau'n darparu gwasanaethau digartref rheng flaen Caerdydd, mae ein polisi drws agored yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i bob unigolyn ddod o hyd i fwyd, lloches, cymorth a chyngor cyfeillgar, dillad, cyfleusterau glendid personol, llety, hamdden, cyfleoedd i ddatblygu a gwirfoddoli, a hyn oll mewn amgylchedd croesawgar sy'n llawn anogaeth.

YR UNED GWELYAU ARGYFWNG

Mae'r uned Gwelyau Argyfwng yn darparu llety i 20 o bobl bob noson o'r flwyddyn, gan roi hunan-barch a'r posibilrwydd o gyfleoedd yn y dyfodol i unigolion sydd wedi dod o'r strydoedd. Gellir meithrin hyn trwy roi ystafell eu hunain iddyn nhw a chynnig cymorth wedi'i strwythuro i ddiwallu eu hanghenion datblygu unigol.

Y LLOCHES NOS

Mae'r lloches ar agor yn ystod misoedd oer y gaeaf ac mae yno noddfa o galedi'r stryd i 12 o bobl ychwanegol y noson. Mae mwy am ddefnyddio'r gwasanaeth nag sydd yna o welyau, a hynny'n gyson, ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl a fyddai'n cysgu ar y strydoedd fel arall.

TAI Â CHYMORTH

Mae ein rhwydwaith o dai â chymorth yn cynnig 38 o denantiaethau i unigolion sydd wedi bod trwy'r gwasanaethau rheng flaen ac sydd bellach yn cymryd camau i gynyddu eu hannibyniaeth gyda thai â chymorth wedi'u teilwra tan y byddant yn barod i gynnal eu tenantiaethau annibynnol eu hunain.

GWASANAETHAU GWIRFODDOLI

O fyfyrwyr ac offeiriaid i haenau uchaf cymdeithas a'r rhai sy'n ddigartref o hyd, mae gan bob unigolyn sgiliau a galluoedd a all newid bywydau pobl. Nid cymorth gwirfoddol yn unig mae pobl ddigartref yn ei gael gan C.A.S.H., maen nhw hefyd yn darparu prydau i bensiynwyr, yn peintio eglwysi lleol ac yn gwneud gwaith cadwraeth a chynnal a chadw afonydd o bob math er lles cymdeithas yn gyffredinol.

GWAITH DATBLYGU

Mae cefnogaeth effeithiol yn golygu mwy na bwyd a lloches yn unig. Mae cyfleoedd i osod her i chi'ch hun, dysgu sgiliau newydd, teithio i leoedd newydd a chyflawni tasgau llawn her, i gyd yn gwneud ein gwaith datblygu'n hynod effeithiol wrth feithrin ac adfer yr hunan-barch a'r hyder sydd ei angen ar bobl ddigartref i gredu o'r newydd yn ansawdd ac annibyniaeth posib eu bywydau eu hunain.

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y GANOLFAN DDYDD

Mae gan y ganolfan ddydd enw da am fynd i'r afael ag anghenion pobl digartref mewn modd holistaidd, ac mae'n darparu gwasanaethau lu sy'n helpu unigolion i oresgyn eu problemau a gwella eu bywydau.

Dyma'r unig wasanaeth mynediad o'i fath yng Nghaerdydd ac mae'n darparu'r canlynol i bobl ddigartref: -

Gwres, lloches, amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar lle gall unrhyw unigolyn digartref fanteisio ar weithgareddau datblygu, cyfleoedd gwirfoddoli, dillad, cyfleusterau ymolchi, cyfleusterau golchi dillad a chymorth arbenigol gan weithwyr ymroddgar.

Mae ein cegin yn darparu bwyd a diodydd poeth a gymorthdelir yn fawr, cawl a bara am ddim drwy'r dydd bob dydd a phrydau wedi'u coginio gan ein gwirfoddolwyr. Mae'r holl elfennau hyn yn dangos gwerth anhygoel cyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a datblygu'r Ganolfan Ddydd gan esbonio'r effaith hynod gadarnhaol mae'r gwasanaeth hwn yn ei chael ar fywydau pobl.

MAE POB UN O'N GWASANAETHAU CEFNOGI AM DDIM AC YN AGORED I BAWB.

ARIENNIR GWASANAETHAU DYDD CANOLFAN HUGGARD YN BENNAF GAN RODDION ELUSENNOL A CHAN WIRFODDOLWYR PENODOL SY'N CODI ARIAN

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

YR UNED GWELYAU ARGYFWNG

Mae'r Uned Gwelyau Argyfwng (EBU) yn un o brif wasanaethau llety mynediad uniongyrchol rheng flaen Caerdydd. Datblygwyd yr uned hon gan C.A.S.H. i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ddigartref ac yn byw ar strydoedd Caerdydd. Ers ei hagor ym 1993, mae'r uned 20 gwely wedi bod yn llawn yn barhaol ac mae mwy am ddefnyddio'r gwasanaeth nag sydd yna o welyau.

Mae gan bob unigolyn ei ystafell ei hun ac mae'r ystafelloedd cymunedol yn cael eu hail-ddodrefnu'n rheolaidd i gynnal y safonau uchel. Gall unigolion aros yma tan y gall ein tîm cefnogi ddod o hyd i lety hirdymor addas iddyn nhw sy'n diwallu eu hanghenion unigol, a'u cynorthwyo i gyrraedd y nod o fyw bywyd annibynnol.

Tra bod y darpariaethau ymarferol yn amlwg ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rhai rydym ni'n eu cynorthwyo, mae'n bosib mai'r cymorth ychwanegol sy'n gwneud yr amgylchedd hwn mor effeithiol ac yn golygu bod ganddo un o'r cyfraddau symud ymlaen mwyaf effeithiol o blith holl hosteli'r ddinas.

Yn hytrach na chynnig dim ond ystafell a phrydau, mae'r cydweithredu â Chanolfan Huggard yn golygu fod yna awyrgylch heb ei ail ac mae'n adnabyddus iawn ymhlith pobl ddigartref a'r rhai sy'n agored i niwed. Mae'r caredigrwydd, y mwynhad a'r gefnogaeth a roddir i'n preswylwyr yn wirfoddol ar adegau arbennig fel y Nadolig a'r Pasg yn hollol anhygoel.

MAE'R FFAITH BOD CYMAINT O WIRFODDOLWYR AM YMUNO Â NI AR DDYDD NADOLIG YN ARWYDD O'R LLWYDDIANT A'R TEIMLAD O GYFLAWNIAD A GEIR YN YR AMGYLCHEDD HWN.

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y TAI

Mae C.A.S.H. yn cynnal 38 o welyau mewn tai â chymorth ledled Caerdydd. Mae'r gwasanaeth tai â chymorth hwn yn darparu cymorth hollbwysig i gynorthwyo unigolion digartref i gymryd y camau olaf tuag at annibyniaeth yn y dyfodol hirdymor. Mae datblygiad Cytundebau neu Gompactau Tenantiaid yn caniatáu i'n tenantiaid ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain ac mae'n profi ymroddiad ein Tîm Tai.

STORI GAN GYN-DENANT

"Ar ôl bod yn ddigartref am ychydig, fe fues i'n aros yn yr Uned Gwelyau Argyfwng yng Nghanolfan Huggard. Mi gefais i dipyn o lwc wedi hynny wrth gael cynnig lle yn un o Dai â Chymorth C.A.S.H.. Derbyniais y cynnig yn syth. Roedd hi'n ymddangos bod pethau'n dechrau dod i drefn ar ôl hynny. Yn gyntaf, dechreuais i wneud gwaith gwirfoddol i helpu'r ganolfan ond wedyn cefais fy newis fel Cynrychiolydd Tenantiaid ac wedi hynny, gyda chymorth C.A.S.H. a Chymdeithas Tai Morgannwg a Gwent, cefais denantiaeth ar y cyd gyda 'nghariad. Bellach, rydym ni'n disgwyl bachgen bach yn fuan iawn. Rydw i ar fin cael teulu".

CYNRYCHIOLWYR TENANTIAID

"Ers i ni gyfarfod â Thîm Tai C.A.S.H., rydym ni'n dau'n teimlo ei fod wedi newid ein bywydau ni. Rydyn ni'n dweud wrth ein gilydd yn aml, "Lle fydden ni heb C.A.S.H.?". Yn byw ar y strydoedd mae'n debyg, gyda'n bywydau mewn helbul ac anhrefn; fodd bynnag, bellach, gyda chymorth C.A.S.H., mae'n bywydau ni wedi'u gweddnewid. Mae gennym ni ddyfodol. Mae Mansel a minnau'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod, trefnu a rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau, teithiau a digwyddiadau yn y dyfodol ar gyfer holl denantiaid C.A.S.H.. Rydym ni hefyd yn gyfrifol am gynrychioli materion tenantiaid, ariannu amcanion newydd a darparu adroddiadau datblygiad hynod werthfawr i'r Pwyllgor Rheoli. Rydym ni'n gobeithio y gallwn ni helpu tenantiaid eraill i gael yr un manteision â ni trwy C.A.S.H., a chynorthwyo'r sefydliad i fynd o nerth i nerth"

"Os bydda i'n ennill y loteri rhyw ddiwrnod, rydw i am wneud cyfraniad sylweddol i C.A.S.H."

Enwebwyd Mansel a Bob ar gyfer Gwobr Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfraniad Tenantiaid.

Y DRWS AGORED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

GWAITH DATBLYGU

"Mae llwyddiant yn daith. Mae'r holl waith rydyn ni'n ei gyflawni ar y rhaglen ddatblygu yn ymwneud â chynnig cyfleoedd, o gloddio yn ystod ein prosiectau cadwraeth cymunedol, i deithiau cerdded yn Belize, mynd â phrydau i bensiynwyr, peintio eglwysi lleol, gorymdeithio trwy Fannau Brycheiniog neu roi cynnig ar chwaraeon newydd. Mae'r her, yr addysg a'r hwyl a geir yn meithrin hunan hyder ac yn arwain at dwf a datblygiad personol i'r unigolion rydyn ni'n eu cefnogi. Yn aml, dyma'r cam cyntaf i helpu pobl i greu bywyd gwell."

Mathew Salley – *Swyddog Datblygu Defnyddwyr*

GAIR O BROFIAD

"Pam mae 'mywyd i wedi troi allan fel hyn? Dyna'r cwestiwn roeddwn i'n ei ofyn i mi fy hun bob dydd pan roeddwn i'n byw ar y strydoedd. Diod a chyffuriau oedd fy unig ddihangfa i, a byddai'r rhain yn fy helpu i anghofio rhai o'r pethau roeddwn i'n eu gwneud. Y peth anoddaf oedd yn codi dro ar ôl tro yn fy mywyd i oedd ceisio ymdopi â'r euogrwydd yn fy meddwl. Roedd delio â bod yn ddigartref a cheisio cael rhywfaint o barch mewn cymdeithas a oedd yn ymddangos yn hunanol iawn ac yn dangos fawr ddim dealltwriaeth yn fy llethu'n llwyr. Yn y pen draw, fe gyrhaeddais i'r Uned Gwelyau Argyfwng yng Nghanolfan Huggard. Ar ôl cwta chwe mis dechreuais sylweddoli mai dyma'r amser i mi newid. Cyn hynny, roedd newid yn rhywbeth mor bell i ffwrdd ac ofnwn na fyddwn i'n cael cyfle eto. Roedd hyd yn oed y pethau symlaf mewn bywyd yn bygwth dianc o'm cyrraedd. Dyna pryd y dechreuais i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored gyda'r gweithiwr datblygu yn C.A.S.H.; yna symudais i dŷ â chymorth C.A.S.H.. Helpodd hyn fi i sylweddoli bod gen i'r gallu i fyw'r bywyd roeddwn i am ei fyw. Roeddwn i'n chwys domen, wedi blino'n lân, ac am roi'r gorau iddi. "Mae hyn yn galed..." dyna'r geiriau oedd yn atsain yn fy mhen. Yna fel rhith mewn gwres llethol, fe welais i'r menywod lleol yn agosáu gyda bwcedi o sudd ffrwythau cartref ffres, a chacennau oedd yn tynnu dŵr i'r dannedd, gan roi hwb i mi a 'ngwneud i'n benderfynol o orffen adeiladu'r ysgol gyda'r bobl leol. Dyma un o'r atgofion gorau sydd gen i o dreulio tri mis yn Belize gyda Raleigh International, a drefnwyd trwy C.A.S.H.; rhoddodd y gwaith o adeiladu ysgol dramor hyder a hunangred i mi a sylweddolais fy mod i wedi bod yn lwcus iawn i gael y cyfle hwn i wneud yr hyn rydw i am ei wneud gyda'm bywyd. Bellach, mae gen i fy fflat fy hun, cariad hyfryd a swydd llawn amser. Rydw i bellach yn helpu pobl eraill oedd yn yr un sefyllfa â mi".

Kevin Fitzgerald – *Cyn-ddefnyddiwr y Gwasanaeth sydd bellach yn Weithiwr Prosiect*

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

GWIRFODDOLWYR

Mae gwirfoddolwyr yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig yn ein sefydliad; ni fyddai'n gwasanaethau'n gweithio ar y lefelau presennol heb eu cefnogaeth, ymroddiad a brwdfrydedd parhaus nhw er lles ein cymdeithas.

PROFIAD JUNE

"Mae'r chwe blynedd a hanner rydw i wedi bod yn gweithio gyda C.A.S.H. wedi gwibio heibio. Gan fy mod i wedi ymddeol bellach, rwy'n mwynhau'r cyfle i ddefnyddio fy sgiliau proffesiynol er lles pobl mewn angen. Mae'r bobl yn wych i weithio gyda nhw. Rwy'n mwynhau dydd Nadolig yn arbennig gyda chymaint o gleientiaid a gwirfoddolwyr yn dod at ei gilydd."

PROFIAD CATHERINE

"Ers blynyddoedd lawer rydw i wedi addo i mi fy hun y byddwn i'n gwneud rhywbeth gwahanol adeg y Nadolig, i geisio ailddarganfod rhywfaint o wir ysbryd yr ŵyl. Eleni, fe wnes i rywbeth gwahanol o'r diwedd, gan benderfynu gwirfoddoli gyda C.A.S.H. yng Nghanolfan Huggard. Fe gefais i groeso mor gynnes gan y cleientiaid, y staff a'r gwirfoddolwyr eraill – roeddwn i'n teimlo'n rhan o'r tîm ar unwaith. Dydw i ddim yn siŵr beth fyddai Siôn Corn neu'r baban Iesu yn ei feddwl am roi sigaréts fel anrhegion Nadolig, ond roedd hi'n fraint cael bod yn rhan o'r gwaith hwn. Llawer o ddiolch i bawb."

SYLWADAU CYDGYSYLLTWYR GWIRFODDOL

"Dros y blynyddoedd, mae gwirfoddolwyr wedi sicrhau canlyniadau gwych wrth gynorthwyo a chefnogi'r staff gyda sawl agwedd ar helpu pobl digartref. Mae hi bob amser yn wych gweld y gwahaniaethau anhygoel y gall gwirfoddolwyr unigol eu gwneud i'r holl gymuned, a'r hyn y mae'n ei olygu i'r unigolion digartref."

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

CYFLEOEDD GWIRFODDOLI

Mae ffyrdd diri i wahanol unigolion helpu ein helusen. Gan ein bod ni'n darparu amrywiaeth mor eang o wasanaethau, gallwn ddefnyddio eich sgiliau unigol ac amrywiol chi er lles pobl eraill.

Does dim ots os ydych chi'n athro, yn labrwr, yn feddyg neu'n wraig tŷ, mae gennym ni waith i chi a byddwn yn cefnogi eich gallu i sicrhau newid cadarnhaol yn eich cymuned. Dyma rai enghreifftiau i chi gnoi cil arnyn nhw:-

YN Y GEGIN

Ers blynyddoedd mae gwirfoddolwyr wedi'n cynorthwyo i baratoi'r prydau am ddim rydyn ni'n eu rhoi i'n cleientiaid. Mae rhai'n fyfyrwyr, mae rhai'n wragedd tŷ, mae rhai'n gweithio'n llawn amser tra bod rhai'n gogyddion cymwys hyd yn oed. Er ein llwyddiant yn y gorffennol, rydyn ni angen gwirfoddolwyr newydd bob amser i'n cynorthwyo i barhau i ddarparu ein gwasanaethau prydau am ddim.

Y GANOLFAN DDYDD

Mae llawer o'n gwirfoddolwyr profiadol yn treulio amser yn y Ganolfan Ddydd yn cefnogi unigolion ac yn cynnig cymorth iddyn nhw, gan drefnu nosweithiau ffilm neu roi cyfle iddyn nhw drafod pethau hyd yn oed. Ac mae'r gwaith ymhell o fod yn ddiflas - dim ond y gwirfoddolwyr cryfaf sy'n gallu gwneud y dasg dwyllodrus o syml hon.

GWAITH DATBLYGU

Mae ein gweithiwr datblygu yn cyflawni swyddogaeth llawn her yn ein sefydliad ac mae'n dibynnu ar wirfoddolwyr ymroddedig i helpu i drefnu rhai o wasanaethau mwyaf cyffrous ac anturus y sector digartref. Mae hyn yn meithrin hunanhyder ac mae'n cael effaith anhygoel sy'n aml yn newid bywydau'r rhai sy'n cymryd rhan.

CASGLWYR ARIAN A GWEITHWYR PROFFESIYNOL MEDRUS

Mae un casglwr arian gwirfoddol wedi defnyddio ei sgiliau proffesiynol i godi 1.5 miliwn o bunnoedd. Mae un cynorthwy-ydd swyddfa gwirfoddol wedi'n galluogi ni i drefnu systemau manwl ar gyfer rheoli'r swyddfa a'r staff. Mae cefnogaeth gan unigolion medrus yn hynod werthfawr ac yn newid bywydau lawer.

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

YSTADEGAU HANFODOL

Gall digartrefedd effeithio ar unrhyw un, ac mae'r miloedd ar filoedd o unigolion o bob oed a sector mae C.A.S.H. wedi'u cynorthwyo dros y blynyddoedd yn profi hynny.

Siart hyd arhosiad yr Uned Gwelyau Argyfwng (nifer y misoedd)



Mae'r siart hwn yn dangos yn amlwg effeithiolrwydd yr Uned Gwelyau Argyfwng wrth gynorthwyo pobl i symud ymlaen yn gyflym cyn cael eu dal yng nghylch digartrefedd

Graff Oedran a Rhyw'r Miloedd o Bobl a Gefnogir yn y Ganolfan Ddydd



RHODDION

Mae llawer o unigolion yn ein helpu ni i helpu pobl ddigartref trwy gyfrannu rhoddion at ein helusen. Mae rhai'n cyfrannu ychydig bach o arian yn rheolaidd tra bod eraill yn gwneud cyfraniadau sylweddol yn achlysurol. Mae rhai'n rhoi bwyd, dillad, wyau Pasg neu offer i ni tra bod eraill yn rhoi eu hamser a'u hymdrech. Ond mae un peth yn sicr - gall pawb gyfrannu at y gymdeithas a'r ysbryd cymunedol o'u cwmpas.

Heb y gefnogaeth barhaus hon gan y gymuned ni fyddai C.A.S.H. yn gallu parhau.

CEFNOGAETH GYMUNEDOL

Mae'n helusen wedi'i sefydlu ar sail ysbryd cymunedol sy'n credu y gall unigolion wneud gwahaniaeth sy'n newid bywydau pobl sydd wedi dioddef caledi cymdeithas fodern a chreu cyfleoedd i bobl eraill gael bywyd o'r ansawdd mae pawb yn ei haeddu. Rydym yn parhau'n fythol ddiolchgar am y gefnogaeth hon. Mae defnyddwyr ein gwasanaethau bellach yn rheoli nifer o wasanaethau cymorth cymunedol eu hunain, a hynny'n wirfoddol.

PRIF NODDWYR

Weithiau, caiff anghenion llawer eu diwallu gan ddiwydrwydd llond llaw. Hoffem roi diolch arbennig i'r canlynol:- **Ymddiriedolaeth Elusennol Huggard, Pob Eglwys sy'n cyfrannu, Elusen Henry Smith, Ymddiriedolaeth Tudor, Lloyds TSB, H.B.O.S, Cyngor Sir Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru,** I enwi dim ond rhai.

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

ADRODDIAD Y RHEOLWR

Fel sefydliad, rydyn ni wedi newid dros y blynyddoedd. Pan sefydlwyd C.A.S.H. ym 1988, roeddem ni ar gael i gynnig bwyd, gwres, lloches a chwmni i bobl oedd yn ddigartref a/neu'n agored i niwed. Rydyn ni'n parhau i gynnig y pethau hyn wrth gwrs, yn ogystal â darparu Canolfan Ddydd 'Drws Agored' (yr unig un o'i math yng Nghymru) ac Uned Gwelyau Argyfwng (mewn partneriaeth â Gofal Hafod). Rydyn ni hefyd yn darparu tai â chymorth yn ninas Caerdydd a'r cyffiniau, 11 o dai gyda lle i 38 o denantiaid, (mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, UWHA, Cymdeithas Tai Taf a Chymdeithas Tai Morgannwg a Gwent). Mae'r prosiectau hyn wedi llwyddo i baratoi pobl i fyw'n annibynnol.

Un o'n cryfderau mwyaf yw'r Rhaglen Datblygu Defnyddwyr. Nod y Rhaglen yw annog defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gyda'r nod o hybu hunan-barch a hyder pobl. Rydyn ni wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Fairbridge De Cymru, Ymddiriedolaeth Scarman a Raleigh International. Trwy hyn, mae defnyddwyr gwasanaethau wedi cael cyflogaeth, wedi astudio'n llawn amser yng Ngholeg Harlech, adeiladu ysgolion yn Belize a Mongolia, adeiladu eu cartrefi eu hunain, llwyddo mewn profion gyrru, yn ogystal â gwneud gwaith cadwraeth, gweithdai cerddoriaeth a gweithgareddau awyr agored.

Yn ogystal â hyn, mae'n Canolfan Ddydd ar agor gyda'r nos yn ystod y gaeaf (rhwng Tachwedd a Mawrth) gan gynnig llefydd ar y llawr i tua 12-15 o bobl a fyddai fel arall yn cysgu ar strydoedd Caerdydd yn nhywydd oeraf a gwlypaf y flwyddyn.

Yn olaf, hoffem ddiolch o galon i'r holl ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr a'r holl noddwyr sydd wedi cefnogi a pharhau i gefnogi'r gwaith rhagorol sy'n cael ei gyflawni i bobl ddigartref a phobl sy'n agored i niwed gan Gweithredu Caerdydd dros y Sengl Digartref.

Heb eich cefnogaeth barhaus chi, ni allai C.A.S.H. barhau.

Ken Eccles
Rheolwr Cyffredinol

Layton (Percy) Jones
Dirprwy Reolwr Cyffredinol

YMDDIRIEDOLWYR C.A.S.H.

Howard Gough – *Cadeirydd*
Rev Kenneth Jordan – *Is-gadeirydd*
David Webber – *Ysgrifennydd Anrhydeddus*
Ian McCann – *Trysorydd Anrhydeddus*
Bob Eunson – *Swyddog Codi Arian Anrhydeddus*
Rev Doug Bale MBE
Y Parch Ganon Gareth Foster
Ken Haines
William P Herbert
Andrew Jenkins
Gloria Knuckey
Nonny Matthewson
Ewart Parkinson
Michael Peterson
Diane Robbins
Eddie Salley
Kenneth Spurlock MBE
Stephen Thomas

AELODAU PWYLLGOR C.A.S.H.

Cyng Patricia Burfoot, Mansel Carter, Y Parch Ganon Graham Francis, Mike Friel, Steve Hyde, Geraldine Jones, Bob Mortimer, Peter Lewis, Robert Wathen

Y DRWS AGORED

GWEITHREDU CAERDYDD DROS Y SENGL DIGARTREF (C.A.S.H.)

CANOLFAN HUGGARD

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

C.A.S.H. O'R GYMUNED I'R GYMUNED

AGORED I BAWB

SUT I DDOD O HYD I NI



Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd caredig Geographers A-Z Map Co Cyf. Hawlfraint y Goron 2005. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded 100017302

C.A.S.H.
CANOLFAN HUGGARD, TRESILLIAN TERRACE, CAERDYDD, CF10 5JZ
FFÔN: 029 2034 9980
FFACS: 029 2023 0283
E-BOST: CASH@c-a-s-h.org.uk

Y DRWS AGORED